

**CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
CYFARFOD /MEETING 13/04/2015**

PRESENNOL: Cadeirydd Mrs S Jones, Mrs E Jones, Mrs C Lloyd, Ms M E Evans, Mrs S Roberts, Mr G Williams, Mr R G Parry a Mr B Veevers

PRESENT: Chairman Mrs S Jones, Mrs E Jones, Mrs C Lloyd, Ms M E Evans, Mrs S Roberts, Mr G Williams, Mr R G Parry and Mr B Veevers

YMDDIHEURIAD: Derbyniwyd ymddiheuriad am eu habsenoldeb oddi wrth Mrs H Williams a'r Cynghorydd Nicola Roberts.

APOLOGIES: Apology for their absence was received from Mrs H Williams and Councillor Nicola Roberts.

COFNODION: Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 02/03/2015 yn gofnod cywir.

MINUTES: Minutes of the meeting held on the 02/03/2015 were accepted as true minutes.

MATERION YN CODI:

MATTERS ARISING:

1. Cloc y Pentref.

(a) **History Point.** Penderfynwyd trafod y mater hwn ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

(b) **Gosod golau ar wynebau'r cloc.** Amcan bris wedi ei dderbyn fel a ganlyn: Mr Malcolm Jones £677.93, Gwynedd Electrics £548.50. Ni dderbyniwyd amcan bris oddi wrth Cybi Electricals. Penderfynwyd derbyn pris Gwynedd Electrics a gofynnwyd i'r Clerc eu hysbysu o hyn,

(c) **Contract cynnal a chadw.** Smith of Derby wedi cadarnhau bod gwarantiad am 12 mis ar y cloc, ac yna bydd y contract cynnal a chadw yn cychwyn yn dilyn gwaith cynnal a chadw ym mis Hydref.

(d) **Grant CADW.** Y £2000 yn weddill nawr wedi'i dalu i mewn i'r banc.

1. Village clock.

(a) **History Point.** It was decided to discuss this matter further at the next meeting

(b) **Fixing lights to the clock faces.** **Clock.** Estimates received as follows: Mr Malcolm Jones £677.93, Gwynedd Electrics £548.50. No estimate was received from Cybi Electricals. It was decided to accept Gwynedd Electrics' estimate and the Clerk was requested to inform them of this decision.

(c) **Maintenance Contract.** Smith of Derby confirmed that there was a 12 month guarantee on the clock, and the maintenance contract will start following service to the clock in October.

(d) **Grant from CADW.** The remaining £2000 has now been paid into the bank.

2. Arwyddion Ffordd Gwalchmai Uchaf ger Castell. Yr arwyddion heb eu gosod. Y Cynghorydd R G Parry am ddod a'r mater i sylw'r Cyngor.

2. Gwalchmai Uchaf Signposts by Castell. The signs still not been erected. Councillor R G Parry to bring the matter to the County Council's

attention.

GOHEBIAETH

1. Cyngor Sir Ynys Môn.

(a) Grantiau i Fudiadau Gwirfoddol 2015/16. Copi o ffurflenni cais am grantiau. Mrs S Roberts wedi cael ffurflenni'n barod ar ran y Pwyllgor Maes Chwarae Plant, felly derbyn er gwybodaeth.

(b) Lois Roberts. Cadarnhad y bydd y sesiwn graffiti gyda phlant Ysgol y Ffridd yn digwydd ar y 13 Mawrth. Cadarnhad gan Mr B Veevers bod y sesiwn wedi digwydd a'i bod wedi bod yn llwyddiannus.

(c) Blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith Ebrill - Tachwedd 2015. Er gwybodaeth.

(d) Ymgynghoriad Gwasanaeth Bws. Dim yn effeithio ar Walchmai, felly derbyn er gwybodaeth yn unig..

(e) Rhybudd derbyn ceisiadau cynllunio fel a ganlyn: (i) Cais llawn i ddymchwel rhan o'r annedd presennol ynghyd ag addasu ag ehangu yn Bryntirion; (ii) Cais i gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl ar gyfer codi annedd ar dir ger 2 Bryn Twrog.

(f) Rhybudd penderfyniad cynllunio. Caniatáu cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Cynefin.

2. Un Llais Cymru.

(i) Ymgynghoriad ar Eithriadau i'r Premiwm Treth Cyngor ar gyfer Cartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi. Derbyn er gwybodaeth,

(ii) Cod Ymarfer ar Faterion Gweithlu. Er gwybodaeth.

3. Deiseb Mynyddoedd Pawb. Er gwybodaeth.

4. CAB. Eisiau recriwtio aelodau ar gyfer panel dinasyddion. Er gwybodaeth.

CORRESPONDENCE

1. Isle of Anglesey County Council.

(a) Grants to Voluntary Organisations 2015/16. Copies of grant application forms. Mrs S Roberts had obtained application forms for the Children's Playing Field Committee, therefore, for information only.

(b) Lois Roberts. Confirmation that the graffiti session with pupils from Ysgol y Ffrod will take place on 13 March. Confirmation by Mr B Veevers that the session had taken place and was successful.

(c) Executive's Forward Work Plan-April – November. For information

(d) Bus Service Consultation. Not affecting Gwalchmai, therefore for information only.

(e) Notice of receipt of planning applications as follows: (i) Full application for part demolition of the existing dwelling together with alterations and extensions at Bryntirion; (ii) Application for approval of reserved matters for the erection of a dwelling on land adjacent to 2 Bryn Twrog.

(f) Notice of planning decision. Full application for alterations and extensions at Cynefin granted.

2. One Voice Wales.

(i) Consultation on Council Tax Exemption for Long Term Empty Houses and Second Homes. For information.

(ii) Code of Practice on Workforce Matters. For information.

3. Mynyddoedd Pawb Petition. For information.

4. CAB. Want to recruit members for a citizen panel. For information.

3. Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Cylchlythyr Newyddion y Gwanwyn. Er gwybodaeth.

4. Archwiliwr Mewnol y Cyngor Cymuned. Dyddiad wedi'i bennu ar gyfer archwiliad mewnol cyfrifon y Cyngor 2014-15 sef 10/6/2015.

UNRHYW FATER ARALL.
Ni chodwyd unrhyw fater arall.

CYFARFOD NESAF: Cynhelir y cyfarfod nesaf, a fydd yn gyfarfod blynyddol cyhoeddus, nos Lun 11 Mai 2015 am 7pm yn Neuadd yr Henoed.

3. Local Democracy and Boundary Commission for Wales. Spring News Newsletter. For information.

4. Council's Internal Auditor. Date for the internal audit of the Community Council's accounts 2014-15 set for 10/6/2015.

ANY OTHER MATTER.
No other matter was raised.

NEXT MEETING: The next meeting, which will be the annual public meeting, will be held on Monday 11 May 2015 at 7pm at the Pensioners Hall.